Cynnig ar gyfer cofrestru gweithwyr cymorth dysgu mewn Ysgolion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Hayden Llewellyn

Sefydliad (os yw'n briodol): Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

E-bost / rhif ffôn: 029 20460 099

Eich cyfeiriad: 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **1 Gorffennaf 2015** at

Nathan Huish
Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ewc.enquiries@wales.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno gyda'r hyn a gynigir, sef y bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru os ydynt yn cyflawni un neu ragor o weithgareddau penodedig a ddiffinnir o dan baragraff 6.13?

Cytuno	☒	**Anghytuno**	☐	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	☐

Sylwadau ategol

Mae'r Cyngor yn deall nad yw Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar yr egwyddor a ddylid cofrestru gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion gael eu cofrestru ai peidio. Ymgynghorwyd ar hyn yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ac mae'r egwyddor wedi'i sefydlu dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. Yma, mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch "y diffiniad o bwy y dylid ei gofrestru" dan y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgolion . Yna, bydd y diffiniad hwn yn cael ei gynnwys yn y Rheoliadau.

Mae'r Cyngor yn nodi bod y diffiniad a gynigiwyd dan baragraff 6.13 wedi'i dynnu o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (ac yn flaenorol, Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 a 2010. Mae'r Cyngor yn credu bod defnyddio'r ddeddfwriaeth hon sy'n bod yn barod

yn sail ar gyfer ffurfioli'r diffiniad o bwy sydd angen cael eu cofrestru yn ymagwedd synhwyrol i'w chymryd a'i bod yn ymagwedd y dylai awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau cyflenwi ei deall, o ystyried eu cyfrifoldebau statudol presennol yn hyn o beth.

Cwestiwn 2 – **Mae '**gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol' yn gategori o gofrestriad o fewn Deddf 2014 ac yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio person sy'n dymuno darparu gwasanaethau penodedig o fewn ysgol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amryw o deitlau/swyddi eraill yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r rôl hon, a nodir y rhain dan 6.5 (i ddibenion egluro yn unig).

A oes unrhyw ddarparwyr gwasanaethau eraill nad ydynt yn y rhestr hon ac a fyddai yn eich tyb chi yn gweddu i'r disgrifiad hwn (gan ystyried y diffiniad a nodir o dan baragraff 6.13)?

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y rhestr dan baragraff 6.5 wedi'i darparu fel enghraifft ac nid yw'n hollgynhwysfawr. At hynny, gallai ddigwydd bod gan ddau aelod o staff mewn ysgolion gwahanol yr un teitl swydd ond eu bod yn ymgymryd â rolau gwahanol iawn mewn gwirionedd.

Fel sydd wedi digwydd gydag athrawon ysgol ac athrawon AB, bydd y Cyngor yn datblygu arweiniad manwl ar gyfer cyflogwyr ac asiantaethau cyflenwi er mwyn iddynt ddeall yn glir pwy fydd angen cofrestru ai peidio dan y categori gweithiwr cymorth dysgu. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cymorth mawr i'r Cyngor wrth ymgymryd â'r dasg hon.

Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r canlynol wedi'u cynnwys yn y rhestr dan baragraff 6.5:

- Staff awdurdodau lleol / consortia a gyflogir yn ganolog, megis hyfforddwyr cerddoriaeth peripatetig
- Personau hunangyflogedig megis hyfforddwyr chwaraeon neu gerddoriaeth y mae ysgolion yn eu defnyddio am nifer bach o oriau'r wythnos
- Swyddogion cynhwysiant
- Rhai llyfrgellwyr ysgol
- Rhai staff cymorth â chyfrifoldebau cymorth ymddygiadol

Yn y ddau achos olaf uchod, mae'r Cyngor yn pwysleisio'r ffaith na fydd y gofyniad i gofrestru'n berthnasol ym mhob ysgol, ond dim ond mewn amgylchiadau pan fydd y person yn ymgymryd â'r dyletswyddau a ddisgrifir ym mharagraff 6.3.

Mae'r Cyngor hefyd yn gwahodd Llywodraeth Cymru i egluro a fydd angen i gynghorwyr herio gofrestru ai peidio.

Cwestiwn 3 – Mae paragraff 6.12 yn rhestru (i ddibenion egluro yn unig) y darparwyr gwasanaethau hynny na fydd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor.

A oes unrhyw deitlau/swyddi eraill y dylid eu heithrio rhag cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg dan y categori 'gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol' (gan ystyried y diffiniad a nodir o dan baragraff 6.13)?

Eto, mae'r Cyngor yn nodi nad yw'r rhestr dan baragraff 6.12 yn hollgynhwysfawr ac fe'i cyflwynir at ddibenion dangosol.

Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r canlynol wedi'u cynnwys yn y rhestr dan baragraff 6.12:

- Rheolwr busnes / bwrsar
- Rheolwr T.G.
- Swyddog arholiadau

Fodd bynnag, eto, mae'r Cyngor yn nodi efallai bod y personau uchod yn cyflawni'r dyletswyddau a ddisgrifir ym mharagraff 6.13 mewn rhai ysgolion, mewn gwirionedd. Os felly, bydd angen iddynt gofrestru.

Cwestiwn 4 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Wrth drafod y rhestrau dan baragraffau 6.5 a 6.12 a'r dyletswyddau dan baragraff 6.13 gyda nifer o ysgolion a grwpiau undebau llafur, mae'r pwynt canlynol wedi'i wneud yn rheolaidd. Mewn rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd bach ac ysgolion arbennig, mae rhai staff gweinyddol neu wirfoddol sy'n perthyn yn bennaf i'r rhestr dan baragraff 6.12 hefyd yn cyflawni rhai dyletswyddau a restrir dan baragraff 6.13. Mae'r Cyngor yn pwysleisio bod y rhestrau dan baragraffau 6.5 a 6.12 yn ddangosol yn unig, a bod y rhestr o ddyletswyddau dan baragraff 6.13 yn bwysicach. Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud hyn yn glir wrth roi arweiniad i gyflogwyr ynglŷn â phwy fydd angen cofrestru ai peidio.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: